

# **Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Ile rhoddwyd rhybudd)**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan, A&M Jones  
Healthcare**

30 Mawrth 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd rhywfaint o oedi wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb .....	4
4.	Canfyddiadau .....	5
	Ansawdd Profiad y Claf .....	5
	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	7
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	10
5.	Y Camau Nesaf.....	11
6.	Methodoleg .....	12
	Atodiad A:.....	15

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Prif nod AGIC yw:

- Cyfrannu at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru, boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas, neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd o ran y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad yn A&M Jones Healthcare yn 26 Commercial Street, Pontnewydd, Cwmbrân, Tor-faen NP44 1DZ ar 30 Mawrth 2016.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd A&M Jones Healthcare yn cyrraedd y safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol â rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth – Rydym yn ystyried sut y mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain, ac a yw'r diwylliant yn addas i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 o'r adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Gofal Iechyd A&M Jones yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Cwmbrân, Gwent. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Practis cymysg yw A&M Jones Healthcare sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn ogystal â gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys 3 deintydd; 3 Nyrs; 3 derbynnydd ac 1 rheolwr y practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol y GIG a phreifat.

### 3. Crynodeb

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod A&M Jones Healthcare yn darparu trefniadau gofal diogel ac effeithiol da iawn i'w gleifion.

Canfuwyd fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd y cleifion y cawsom sgwrs â hwy eu bod yn hapus â'r gwasanaeth a ddarperir.
- Roedd y staff y cawsom sgwrs â hwy yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.
- Roedd y strwythur rheoli wedi'i drefnu'n dda.
- Roedd y staff wedi mynychu hyfforddiant perthnasol ac roedd y systemau gwerthuso yn dda.
- Roedd polisïau a gweithdrefnau yn gyfredol ac wedi'u trefnu'n dda
- Roedd y cyfleusterau clinigol a welsom yn gyflawn, a gwelsom eu bod yn lân ac yn daclus.
- Roedd y broses o ddadheintio yn cael ei chynnal yn effeithiol
- Roedd y cyfarpar pelydr-X yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i ddefnyddio'n ddiogel.

Argymhellwn y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Dylid cynnwys darlleniadau pwysedd a thymheredd yn y cofnodion o archwiliadau dyddiol ar yr awtoclafau
- Roedd y broses o gofnodi nodiadau cleifion yn dda iawn ond roedd rhai meysydd i'w gwella.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y practis yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'w gleifion. Dywedodd yr holl gleifion y cawsom sgwrs â hwy ar ddiwrnod yr arolygiad eu bod yn cael croeso gan dîm y practis, a'u bod yn fodlon ar y gofal yr oeddent yn ei gael. Roedd gan y practis system dda er mwyn gofyn am adborth y cleifion a'i adolygu'n rheolaidd fel ffordd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.**

Cyn yr arolygiad, roeddem wedi gwahodd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn casglu barn ynghylch y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

*"Mae'r staff bob amser yn gyfeillgar a chymwynasgar iawn."*

*"Mae popeth bob amser o'r radd flaenaf."*

*"Practis a derbynfa dymunol iawn."*

### Gofal urddasol

Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn ffordd gyfeillgar, urddasol a phroffesiynol. Dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth yr oeddent yn eu cael, a bod y staff yn groesawgar.

Roedd taflen sy'n disgrifio'r practis ar gael i gleifion ac roedd gan y practis wefan sy'n golygu bod gwybodaeth berthnasol ar gael i gleifion mewn amryw o fformatau. Roedd rhestr o bris triniaethau ar gael yn y manau aros.

### Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu mewn modd amserol. Dywedwyd wrthym fod system apwyntiadau hyblyg ar waith, a oedd yn galluogi cleifion i drefnu apwyntiadau ymlaen llaw, yn ogystal ag ar frys. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion wrthym nad oeddent yn gorfod aros cyn cael eu gweld gan y deintyddion. Dywedodd y rheini a oedd wedi gorfod aros nad oedd hynny am gyfnod hir. Disgrifiodd staff y broses o roi gwybod i gleifion os oedd eu deintydd yn rhedeg yn hwyr neu'n absennol yn annisgwyl ar ddiwrnod eu hapwyntiad.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion wrthym eu bod yn gwybod sut i gael gofal y tu allan i oriau. Gwelsom arwydd ger mynedfa'r practis a oedd yn cynnwys manylion y rhif ffôn cyswllt brys, er mwyn i gleifion allu cael gofal deintyddol

brys pan fo'r practis ar gau. Roedd y neges llais ar y peiriant ateb yn cynnwys gwybodaeth addas.

### Cadw'n iach

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y practis yn cydnabod yr angen i hybu iechyd, er mwyn cefnogi lles ei gleifion. Roedd amrywiaeth o daflenni a phosteri a oedd yn hybu iechyd y geg a lles cyffredinol. Roedd digon o ddeunydd darllen ar ofalu am ddannedd plant. Drwy holiaduron a sgwrsio â chleifion gwelsom eu bod yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth ddigonol.

### Gofal unigol

Ar y cyfan, mae mynediad i'r practis yn addas ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn a chleifion sydd ag anawsterau symudedd. Mae gris bychan wrth y fynedfa ond mae gan y practis ramp y gellir ei ddefnyddio i oresgyn hyn. Gellir gweld defnyddwyr cadeiriau olwyn ar lawr daear y feddygfa. Nid oes toiled cleifion ar gael iddynt ei ddefnyddio, ond cawsom wybod bod y staff yn sicrhau bod y cleifion yn ymwybodol o hyn. Roedd y toiled i gleifion yn lân ac yn daclus ond roedd angen ei addurno. Dywedodd rheolwr y practis wrthym mai hyn oedd nesaf ar eu cynllun gwella.

Mae gan y practis bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth cyfredol sy'n dangos bod y practis yn cydnabod amrywiaeth ymysg poblogaeth ei gleifion ac yn ystyried ei gyfrifoldebau dan ddeddfwriaeth Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis system dda i gael adborth cleifion. Cynhaliwyd holiaduron cleifion yn rheolaidd a dadansoddwyd y canlyniadau'n effeithiol.

Roedd gan y practis weithdrefn wedi'i sefydlu er mwyn i bob claf fynegi pryderon (cwynion), p'un a ydynt yn gleifion preifat neu'n gleifion y GIG. Gwelsom fod y weithdrefn yn cydymffurfio â'r trefniadau i fynegi pryderon am driniaeth y GIG (a elwir yn 'Gweithio i Wella') a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Gwelsom dystiolaeth fod cwynion ysgrifenedig a chwynion ar lafar/anffurfiol yn cael eu cofnodi'n briodol. Roedd y practis wedi arddangos gweithdrefnau cwyno yn yr ystafelloedd aros i gleifion GIG a chleifion preifat ill dau, ac roedd taflenni ar gael yn rhwydd.



## ***Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol***

**Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth i gefnogi'r casgliad bod cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol. Roeddem yn fodlon ar y trefniadau sydd wedi'u sefydlu i ddiogelu cleifion a staff rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Roeddem yn fodlon bod y cyfarpar radiograffeg yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel, ac yn cael ei archwilio a'i gynnal a'i gadw'n briodol.**

**Wrth edrych ar gofnodion cleifion, gwelsom, ar y cyfan, eu bod o safon dda ond rydym yn argymhell rhai meysydd i'w gwella.**

### Gofal diogel

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y practis wedi cymryd camau i sicrhau iechyd, diogelwch a lles staff a chleifion. Gwelsom fod prawf dyfeisiau cludadwy (PAT) wedi cael ei gynnal i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis. Roedd yn amlwg fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac roedd diffoddyddion tân wedi'u gosod yn strategol ac roeddent wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd contract wedi'i sefydlu i gael gwared â gwastraff peryglus. Roedd y cyngor lleol yn casglu gwastraff nad yw'n beryglus. Roedd y broses o gadw a gwaredu gwastraff yn cael ei chynnal yn ddiogel, yn unol â chanllawiau.

Roeddem yn fodlon ar y trefniadau i amddiffyn staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol hwn. Gwelsom un o'r nyrsys yn cyflawni'r weithdrefn ddadheintio yn ddiogel ac yn effeithiol. Roedd y protocol dadheintio i'w weld yn amlwg ar wal yr ystafell ddadheintio. Defnyddiwyd dulliau cyn-sterileiddio â llaw.

Gwelsom dystiolaeth fod mesurau atal a rheoli heintiau effeithiol wedi'u sefydlu sy'n seiliedig ar ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM01-05), megis:

- Roedd dewis mawr o offer ar gael ac roeddynt i gyd wedi'u cadw'n briodol gyda'r dyddiad arnynt fel bod y staff yn gwybod pa offer a oedd yn ddiogel i'w ddefnyddio ar gyfer triniaethau cleifion.
- Roedd cyfarpar diogelu personol (PPE) megis menig untro, ffedogau a sbectol i amddiffyn y llygaid ar gael. Roedd sinc penodedig i olchi dwylo.
- Dangosodd tystysgrif arolygu yr awtoclaf ei fod wedi cael ei brofi er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio'n iawn.

- Cadwyd cofnodlyfrau ar gyfer archwilio'r cyfarpar a chynhaliwyd archwiliadau arferol o ofynion rheoli heintiau. Rydym yn argymhell hefyd y dylai'r practis argraffu'r cylch cyntaf o brofi tymheredd a phwysedd yr awtoclaf yn ddyddiol a'u cadw yn y ffeil gyda strivedi'r prawf.

Roedd rhai cypyrddau ffeilio yn yr ystafell ddadheintio a ddefnyddiwyd i gadw hen gofnodion cleifion ac nid oedd y system awyru yn yr ystafell yn dda ac roedd angen ei gwella. Dywedodd perchenogion y practis wrthym eu bod yn bwriadu gwella'r adeilad yn gyffredinol ar ddechrau 2017 gyda'r bwriad o symud y ffeiliau i lawr cyntaf yr adeilad a chyflwyno system awyru well.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

#### ***Dylai'r practis gadw allbrint dyddiol o bwysedd a thymheredd cylch cyntaf yr awtoclaf yn ogystal â chadw gwybodaeth ar gof bach USB***

Gwelsom gofnodion priodol yn ymwneud â statws imiwneiddio rhag Hepatitis B i bob staff clinigol sy'n gweithio yn y practis, sy'n dangos bod y practis yn cymryd camau i amddiffyn cleifion a staff rhag haint.

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis ac fe'u cadwyd yn briodol yn unol â chanllawiau'r Resuscitation Council (UK). Roedd manylion priodol yn y cofnodlyfrau ar gyfer cyffuriau brys a chyfarpar.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y staff wedi derbyn hyfforddiant ynglŷn â sut i ymdrin ag argyfwng meddygol a sut i wneud adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR). Roedd y staff y cawsom eu cyfweld yn ymwybodol o'u rôl mewn argyfwng meddygol. Roedd gan y practis swyddog cymorth cyntaf penodedig sy'n meddu ar gymhwyster priodol.

Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau priodol i hyrwyddo ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion agored i niwed. Gwelsom bolisi amddiffyn plant a pholisi amddiffyn oedolion agored i niwed. Roedd y staff i gyd wedi derbyn hyfforddiant mewn diogelu plant ac oedolion agored i niwed.

Roedd pob gweithiwr wedi derbyn archwiliad cyn cyflogi ac roedd y deintyddion wedi derbyn archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat.

Cawsom sicrwydd fod y cyfarpar a'r broses o dynnu radiograffau (pelydr-X) yn y practis hwn yn ddiogel. Cafodd y pelydr-X ei brosesu'n ddigidol. Roedd cyfarwyddiadau a manau a reolir wedi'u harddangos er diogelwch y staff a'r cleifion. Yn ogystal, gwelwyd tystiolaeth i gadarnhau fod y staff i gyd wedi cwblhau hyfforddiant mewn tynnu radiograffau er mwyn bodloni safonau gweithwyr sy'n cyflawni hyn. Mae hyn yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol

Cyffredinol (GDC) a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 (IR(ME)R).

Mae dwy feddygfa ddeintyddol: deintyddion sy'n defnyddio un feddygfa a'r hylenydd sy'n defnyddio'r ail feddygfa. Roedd y ddwy ohonynt yn lân ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda. Roedd gan y meddygfeydd gyfarpar at eu dibenion ac roedd yr holl gyfarpar deintyddol yn lân ac mewn cyflwr da. Gwelsom fod y deintyddion yn defnyddio blaenau sugno aml dro y gellid eu sterileiddio felly bu i ni awgrymu y dylid defnyddio blaenau sugno untro yn eu lle.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis newid blaenau sugno'r awtoclaf gyda blaenau sugno untro.***

### **Gofal effeithiol**

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus ac mae'n monitro ei ddatblygiad. Mae staff clinigol yn mynychu cyfarfodydd adolygiad gan gymheiriaid a drefnir yn lleol yn rheolaidd. Maent hefyd yn cymryd rhan mewn cynlluniau arfer da a gynhelir gan Gymdeithas Ddeintyddol Prydain (BDA) sy'n sicrhau y cedwir safonau da cyffredol.

Gwelwyd cofnodion archwilio sicrhau ansawdd blynyddol pelydr-X. Cawsom wybod y cynhelir archwiliadau rheoli heintiau fel mater o drefn.

### **Cofnodion cleifion**

Bu i ni edrych yn fanwl ar sampl bychan o gofnodion cleifion ar gyfer pob deintydd yn y practis a gwelsom fod safon y broses o gadw cofnodion yn dda iawn ar y cyfan. Roedd y deintyddion yn cadw nodiadau cleifion da iawn ar y cyfan gyda chefnidir a chaniatâd meddygol ar gael. Byddem yn argymhell y dylid darparu cynllun triniaeth ysgrifenedig ar gyfer pob triniaeth a chofnodi sgrinio cancer y geg.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i ddeintyddion yn y practis sicrhau bod cynlluniau triniaeth ysgrifenedig yn cael eu darparu ar gyfer pob triniaeth a'u bod yn cofnodi sgrinio cancer y geg.***

## ***Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth***

**Gwelsom fod atebolrwydd a rheolaeth y practis yn eglur iawn. Roedd y prif ddeintyddion a rheolwr y practis yn rhannu'r rôl rheoli. Roedd cyfathrebu da rhwng aelodau'r staff, a dosrannwyd tasgau mewn modd priodol. Roedd y staff y cawsom sgwrs â nhw yn ymroddedig i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion. Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau yn drefnus ac wedi'u hadolygu'n rheolaidd.**

Y prif ddeintyddion a rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Roedd gan y practis dîm staff ymroddedig. Roedd y staff yn cydweithio'n dda, yn cyfathrebu'n dda yn fewnol, gan ddangos ymrwymiad i ofalu am gleifion. Gwelsom dîm o staff a oedd yn cyflawni eu rolau yn hapus, yn hyderus, ac yn gymwys.

Gwelsom gofnodion hyfforddi sy'n dangos bod staff yn gallu cael mynediad at hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl a'u datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

Roedd y cyfathrebu rhwng staff y practis yn dda. Dywedodd y staff wrthym fod cyfarfodydd staff ffurfiol yn cael eu cynnal bob tri mis. Yn ogystal, dywedodd pawb a gafodd eu cyfweld eu bod yn gallu siarad â'r deintyddion a rheolwr y practis ar unrhyw adeg i drafod pryderon ac anghenion hyfforddi. Gwelsom dystiolaeth o ddysgu drwy gyfarfodydd staff ble trafodwyd protocolau ac awgrymwyd gwelliannau. Cynhaliwyd gwerthusiadau ffurfiol gyda phob aelod o staff yn flynyddol a gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant sefydlu da i bob aelod newydd o staff.

Cadarnhawyd fod pob aelod o staff perthnasol wedi cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru), roedd pob deintydd sy'n darparu triniaeth breifat wedi'i gofrestru gydag AGIC, ac roedd eu tystysgrifau cofrestru wedi'u harddangos yn y practis. Gwelwyd yswiriant indemniad priodol.

Bu i ni edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau yn y practis a gwelsom dystiolaeth eu bod wedi'u hadolygu'n rheolaidd ac wedi'u trefnu'n eglur.

## Y Camau Nesaf

Yn sgil yr arolygiad hwn, mae angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) er mwyn mynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn A&M Jones Healthcare yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynghylch y materion a drafodir ynddo.


Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a'i werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 5. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal Newydd (gweler ffigur 1) wrth wraidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema gydweithio â'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Y Safonau Iechyd a Gofal**



Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis, sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth, hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<sup>1</sup> a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.<sup>2</sup> Pan fo'n briodol, rydym yn ystyried sut y mae'r

---

<sup>1</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made>

<sup>2</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made>

practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Adolygwyd gennym ddogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau â staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio cyfarpar a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad, er mwyn sicrhau eu bod yn cael adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A i'r adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg ar gymhwysiad safonau yn y practis yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## Atodiad A

**Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella**

**Practis: A & M Jones Healthcare 26 Commercial Road**

**Dyddiad yr Arolygiad: 30 Mawrth 2016**

Rhif y Dudalen	Yr Hyn Sydd Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd Profiad y Claf</b>					
	Ni chanfuwyd unrhyw welliannau				
<b>Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol</b>					
8	Dylai'r practis gadw allbrint dyddiol o bwysedd a thymheredd cylch cyntaf yr awtoclaf yn ogystal â chadw'r wybodaeth ar gof bach USB	Safonau lechyd a Gofal 2.4 WHTM01-05 adran 4	Rhodddwyd sylw i'r argymhelliad hwn ar unwaith. Roeddem hefyd yn cadw copïau'n ddiogel ar-lein, a byddwn yn parhau i wneud hynny	Deb. Nash	ar unwaith
9	Dylai'r practis newid blaenau sugno'r awtoclaf gyda blaenau sugno untro	WHTM01-05 adran 2.2	Mae gennym flaenau awtoclaf glân a hawdd i'w defnyddio a rhai untro ar hyn o bryd. Byddwn yn symud	Andrew Jones	1 mis



Rhif y Dudalen	Yr Hyn Sydd Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			tuag at sicrhau bod pob un ohonynt yn rhai untro		
9	Mae'n rhaid i ddeintyddion yn y practis sicrhau bod cynlluniau triniaeth ysgrifenedig yn cael eu darparu ar gyfer pob triniaeth a'u bod yn cofnodi sgrinio canser y geg	Safonau lechyd a Gofal 3.5, 4.2 Safon 4.1 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol	Mabwysiadwyd hyn ar unwaith	Sarah Al-Shamma	ar unwaith
<b>Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</b>					
	Ni chanfuwyd unrhyw welliannau				

### Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras): .....Andrew Jones.....

Teitl: .....Deintydd.....

Dyddiad: .....27/4/2016.....